

Templed i wneud cais am Ganiatâd Trydydd Parti [Word] [pdf]
[Eich enw]

[Cyfeiriad a manylion cyswllt]

[dyddiad]

Annwyl Syr neu Fadam (dileer fel y bo'n briodol)

Parthed: Cais am ganiatâd i ailddenyddio deunydd hawlfraint

Rydw i'n paratoi'r thesis doethurol canlynol i'w gyflwyno ym Mhrifysgol Bangor.

Mae'n bosib y bydd fersiwn electronig o'r gwaith terfynol yn cael ei ryddhau ar y we fyd-eang. [nodwch deitl, manylion yr awdur a dyddiad cyflwyno arfaethedig y thesis]

Yn y gwaith hwn rydw i'n gobeithio cynnwys y deunydd canlynol o un o'ch cyhoeddiadau, gan gydnabod yr awdur/on yn llawn:

[nodwch fanylion cyflawn am y gwaith gwreiddiol, a disgrifiad llawn o'r cynnwys yr ydych yn dymuno ei atgynhyrchu hefyd amgaewch gopi o'r deunydd yr ydych yn dymuno ei ddefnyddio]

Bydd fy thesis ar gael am ddim fel dogfen electronig a gedwir yng nghadw'rfa sefydliadol Prifysgol Bangor, <http://e.bangor.ac.uk/>. Unwaith y bydd ar gael yn y fformat digidol hwn, caiff y cyhoedd fynd ato, a hefyd ddefnyddwyr y Gwasanaeth 'Electronic Thesis Online' a ddarperir gan yr

Angueddfa Brydeinig (lle cedwir yn barhaol), a gellir ei gynaeafu'n awtomatig gan Wasanaeth Theses Electronig Ar-Lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru, lle bo'n briodol a lle gellir cadw copïau hefyd.

Bydd gofyn i ddefnyddiwr y thesis gytuno y dylai ddefnyddio'r thesis yn unig at ddibenion ymchwil anfasnachol, astudio preifat, beirniadu ac adolygu, adrodd y newyddion, neu i ddarlunio wrth addysgu ac/neu at ddibenion addysgol eraill ar ffurf electronig a phrint

Byddwn yn ddiolchgar pe baech chi, neu'r cwmni yr ydych yn ei gynrychioli, yn rhoi caniatâd i mi gynnwys y deunydd, a ddisgrifir uchod, yn fy thesis, heb dalu breindal yn fythol barhaus. Os oes gennych unrhyw ofynion penodol ynghylch y gydnabyddiaeth (e.e. ffurf neu safle'r geiriau) rhowch wybod i mi.

Gweler nodyn 'caniatâd' ar waelod y llythyr hwn. Os ydych yn dymuno defnyddio hwn llofnodwch isod ac anfonwch y llythyr cyfan yn ôl ataf. Os nad chi sy'n dal yr hawliau, byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn gallu anfon y cais hwn ymlaen at yr unigolyn cywir, neu roi manylion cyswllt i mi er mwyn i mi allu cysylltu â deiliad yr hawlfraint yn uniongyrchol.

Rydw i/rydym ni'n rhoi caniatâd i ddefnyddio'r deunydd a ddisgrifir uchod, at y dibenion a nodwyd.

Printiwch Enw a Chyfeiriad:

Llofnod:

Dyddiad:

Disgrifiwch unrhyw ofynion cydnabod penodol, os oes: